# Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru – Cofnodion
# Dydd Iau, 25 Hydref 2023 9:15-10:45 MS Teams

**Yn bresennol**

Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Andrew Morgan, Rhondda Cynon Taf | Y Cynghorydd Anthony Hunt, Torfaen |
| Y Cynghorydd Mark Pritchard, Wrecsam | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Gwynedd |
| Y Cynghorydd Jane Mudd, Casnewydd | Y Cynghorydd Ian Roberts, Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd Llinos Medi, Ynys Môn | Y Cynghorydd Paul Griffiths, Sir Fynwy |
| Y Cynghorydd Rob Stewart, Abertawe | |

**Swyddog Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

David Holloway-Young – Trysorydd, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Llywodraeth Leol**

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nigel Aurelius – CBS Torfaen (Prif Swyddog Cyllid), Ysgrifennydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru
Nathan Gardner – Rheolwr Cyllid, CLlLC
Naomi Alleyne – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC
Lisa Haywood – Swyddog Polisi Cyllid, CLlLC

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwyr Cyffredinol, Adfer wedi Covid a Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Matthew Wellington – Trysorlys Cymru, Y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth

**Swyddogion Llywodraeth Cymru (yn arsylwi)**

| | |
|---|---|
| Phillipa Marsden – Cynghorydd Arbennig | Ben Crudge – LGFR |
| Emma Smith – LGFPS | Kathryn Watkins – LGFR |
| Andrea Melvin – LGFPS | Clare Blake – LGFR |

James Koe – LGFPS
Freya Gregory – LGFPS
Amanda Whittle – Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol (LGFR)
Helen Childs – Ysgrifennydd Preifat
Rebecca Pinder – Ysgrifennydd Preifat
Lisa Hughes – Perfformiad a Phartneriaethau Llywodraeth Leol

**Ymddiheuriadau**

Alun Michael – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Diolchodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y gweinidog) i'r aelodau am fynychu. Ffocws y cyfarfod fyddai'r gyllideb arfaethedig a'r goblygiadau i Gymru, y pwysau ar lywodraeth leol a'r cynnydd wrth leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.

**Eitem 2: Cofnodion a Materion sy'n Codi o'r Cyfarfod Blaenorol (Papur 1)**

2. Dosbarthwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chytunwyd arnynt. Nid oedd unrhyw sylwadau na phwyntiau i'w cywiro.

3. Cyfeiriodd y gweinidog at y cam gweithredu i swyddogion CLlLC a Llywodraeth Cymru nodi meysydd allweddol lle byddai camau gan Lywodraeth y DU yn ddymunol, gyda'r bwriad o gyhoeddi llythyr ar y cyd. Cadarnhaodd y gweinidog, yn dilyn gwaith ar y cyd, y cytunwyd y byddai llythyr uniongyrchol gan Lywodraeth Leol yn rhoi mwy o ryddid i CLlLC dynnu sylw at yr holl bwysau a wynebir.

**Eitem 3: Diweddariad y Gweinidog**

4. Nododd y gweinidog fod setliad Llywodraeth Cymru yn 2023-24 hyd at £900m yn is mewn termau real na'r swm a ddisgwyliwyd adeg adolygiad o wariant 2021 a'i fod yn werth £2bn yn llai na'r swm pe byddai wedi cynyddu'n unol â CDG ers 2010. Roedd y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn y gyllideb ddiwethaf yn llawer is na'r swm sydd ei angen o ystyried lefel chwyddiant.

5. Cadarnhaodd y gweinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i geisio lliniaru'r pwysau hyn, ac i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen cymaint â phosibl, ac i dargedu cymorth tuag at y rhai hynny sydd ei angen fwyaf. Roedd y Cabinet wedi gweithio drwy gydol yr haf i ystyried sut i ailflaenoriaethu er mwyn mantoli'r gyllideb, gan ystyried cyfleoedd i gyflawni canlyniadau yn arafach.

6. Cadarnhaodd y gweinidog fod cyllid awdurdodau lleol wedi cael ei gynnal ar y cyfan ac y byddai eglurhad pellach yn cael ei roi ar holl linellau'r gyllideb yr effeithiwyd arnynt adeg cyhoeddi'r cyllidebau atodol. Roedd Gweinidogion Cymru wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd ond nid oedd hi'n debygol y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn Natganiad Hydref y Canghellor ar 22 Tachwedd.

7. Cydnabu'r gweinidog, heb gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU, y byddai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn wynebu dewisiadau anodd wrth

flaenoriaethu cyllid, ond dyma fyddai'r cyd-destun ar gyfer Cyllideb 2024-25 hefyd. Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi cynlluniau gwariant llawn gyda'r Asesiad Effaith Integredig Strategol gyda Chyllideb Ddrafft 2024-25 ar 19 Rhagfyr. Bydd y setliad drafft ar gyfer llywodraeth leol yn dilyn ar 20 Rhagfyr.

8. Cadarnhaodd y gweinidog ei bod wedi ysgrifennu at y Canghellor, cyn Datganiad Hydref y DU, i bwysleisio'r angen i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus er mwyn ymateb i'r pwysau ar wariant sydd ohoni o ganlyniad i chwyddiant uchel a dyfarniadau cyflog nas ariannwyd. Roedd hefyd wedi cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a gweinidog cyllid yr Alban. Fel rhan o'r cyfarfodydd hyn, trafodwyd y pwysau ar wariant cyhoeddus, Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC), hyblygrwydd cyllidebol, sicrwydd ynni, effaith amseru hwyr datganiad yr Hydref a Fframwaith Cyllidol Cymru, y gronfa wrth gefn a'r terfynau benthyca. Roedd yn disgwyl cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys eto'n fuan a byddai'n tynnu sylw at y pwyntiau a godwyd yn ystod y cyfarfod hwn. Croesawodd y gweinidog gefnogaeth barhaus CLILC mewn perthynas â llawer o'r materion hyn a'r cyfleoedd i gydweithio er mwyn pwysleisio'r negeseuon.

**Eitem 4: Diweddariad ar leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol**

9. Rhoddodd y gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol. Diolchodd i'w chydweithwyr a fu'n gweithio gyda'r swyddogion i nodi'r materion a'r cyfleoedd i wneud newidiadau. Nododd mai'r adborth mwyaf a gafwyd gan gydweithwyr oedd fod y cyfle gorau i wneud newidiadau, a fyddai'n esgor ar fuddiannau pellgyrhaeddol, yn ymwneud â rheoli a gweinyddu grantiau.

10. Nododd y gweinidog fod y cyfarfod a drefnwyd i drafod y cynnydd ar waith grantiau wedi'i ohirio er mwyn i'r Cabinet allu cynnal ei drafodaethau ar y gyllideb yn gyntaf. Nododd y byddai hyn yn golygu y gellid ystyried cyllid llywodraeth leol ar gyfer 2024-25 yn gyffredinol, yn hytrach nag edrych ar grantiau drwy un lens ac edrych ar y Grant Cynnal Refeniw ar wahân.

11. Cadarnhaodd fod tri phrif opsiwn bob amser o ran grantiau, sef trosglwyddo i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw, atgyfnerthu ffrydiau cyllido neu gynnal y status quo. Cynigiodd y gweinidog y dylid cyhoeddi'r gyllideb ddrafft a'r wybodaeth fanwl am y setliad ar eu ffurf bresennol h.y. gan gynnwys gwybodaeth am grantiau penodol. Byddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud fel rhan o'r gyllideb a'r setliad terfynol (neu o fewn cyllidebau atodol) a fyddai'n darparu tryloywder ar y penderfyniadau a wnaed. Byddai'r Is-grŵp Cyllid yn cynnal cyfarfod arbennig yn y flwyddyn newydd i ystyried y gwaith hwn. Yn y cyfamser, bydd gwaith yn dechrau i ddatblygu ail ffrwd waith y rhaglen, sy'n ymwneud â ffyrdd newydd o weithio a gwella'r bartneriaeth llawn ymddiriedaeth sydd gennym â llywodraeth leol.

12. Diolchodd y Cynghorydd Andrew Morgan i'r gweinidog am y diweddariad. Pwysleisiodd gais llywodraeth leol na ddylid lleihau'r grantiau ar gyfer gwasanaethau craidd fel rhan o broses y gyllideb. Nododd hefyd yr anghysondeb mewn perthynas â maint cymharol a gofynion adrodd rhai grantiau a gofynnodd a ellid adolygu hyn. Cytunodd y gweinidog y dylid adolygu grantiau er mwyn sicrhau bod y gwaith gweinyddol yn gymesur â maint y grant. Roedd y neges hon yn rhan glir o'r rhaglen waith, ond byddai'n cael ei phwysleisio eto wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

13. Cytunodd David Holloway-Young â phwynt y Cynghorydd Andrew Morgan ynghylch gweinyddu grantiau ond mynegodd bryder y byddai llai o dryloywder pe câi grantiau eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw.

**Eitem 5: Diweddariad CLILC ar y pwysau cyllido ar lywodraeth leol (Papur 2)**

14. Darparodd y Cynghorydd Anthony Hunt y wybodaeth ddiweddaraf am y pwysau ar awdurdodau lleol fel y'u crynhoir ym mhapur 2. Cadarnhaodd bwysau ar draws llywodraeth leol o ryw £720m ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf o ganlyniad i bwysau chwyddiannol a chynnydd o ran galw.

15. Nododd fod 36% (£261m) o'r pwysau yn 2024-25 yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol, fod 23% (£164m) o'r pwysau yn gysylltiedig ag ysgolion a bod y 41% (£295m) sy'n weddill yn gysylltiedig â gwasanaethau eraill.

16. Cadarnhaodd er bod y pwysau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol wedi'u gwrthbwyso gan setliad gwell na'r disgwyl, fod pwysau o ryw £219m ychwanegol yn ystod y flwyddyn o hyd. Mae gofal cymdeithasol yn gyfrifol am 50% (£109m) o'r gorwariant, mae addysg ac ysgolion yn gyfrifol am tua 22% (£47m) o'r gorwariant ac mae gwasanaethau eraill cynghorau yn gyfrifol am ychydig llai na 30% (£63m). Nodwyd hefyd y pwysau sy'n deillio o'r ffaith bod yn rhaid i gynghorau roi cymhorthdal ar gyfer y cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) lle roedd y gost fesul uned yn is na'r gost wirioneddol, y cynnydd yn y cyflog byw gwirioneddol yn ogystal â'r ffaith nad oedd y codiadau cyflog i athrawon yn cael eu cyllido ar wahân.

17. Nododd y Cynghorydd Anthony Hunt, o ystyried maint yr her, er y bydd cynghorau yn ceisio gwneud arbedion pellach a thrawsnewid gwasanaethau, bydd angen i lawer o gynghorau wneud toriadau sylweddol i wasanaethau a chael gwared ar filoedd o swyddi.

18. Diolchodd y Cynghorydd Mark Pritchard i'r Cynghorydd Anthony Hunt am y cyflwyniad ac i CLILC am ei gwaith mewn perthynas â'r pwysau ar lywodraeth leol. Tynnodd sylw at y pwysau ar ofal cymdeithasol (wedi'i achosi gan alw cynyddol a chwyddiant) fel mater difrifol ledled Cymru nad oedd yn gynaliadwy.

19. Canolbwyntiodd y Cynghorydd Andrew Morgan ar faterion yn ymwneud â chyflogau, cost gynyddol cyflogau athrawon a'r cyhoeddiad am y cynnydd o ran y

cyflog byw gwirioneddol – sef cynnydd o 10% i'r aelodau o staff ar y cyflogau isaf. Pwysleisiodd na fydd cynnydd o 3.1% yn y Grant Cynnal Refeniw yn ddigon i dalu am godiad cyflog o 5% ar draws y sector, a fyddai'n awgrymu colli nifer sylweddol o swyddi. Soniodd y Cynghorydd Ian Roberts am y newidiadau arfaethedig o ran cyfraddau cyflogwr ar bensiynau athrawon a bod y newid i'r targed presenoldeb disgyblion o 90-95% yn cynyddu costau.

20. Adleisiodd y Cynghorydd Llinos Medi y pwynt a godwyd gan y Cynghorydd Mark Pritchard ar wasanaethau cymdeithasol, gan dynnu sylw at y gost uchel ar gyfer plant unigol ag anghenion datblygedig a chostau lleoliadau y tu allan i'r sir a'r ffaith nad oedd lleoliadau o'r fath yn ddymunol. Nodwyd hefyd y pwysau parhaus ar staff a'r ddibyniaeth ar ewyllys da i barhau i ddarparu gwasanaethau.

21. Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart fod risg y gallai fod angen i ALlau fynd islaw'r lefelau darparu statudol. Nododd y Cynghorydd Jane Mudd effeithiau tymor hir profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'r effaith ddilynol ar gyllid llywodraeth leol yn y dyfodol. Pwysleisiodd fod pob pennaeth yn yr ALl wedi ysgrifennu at y Cyngor mewn perthynas â chyllid ADY.

22. Ychwanegodd y Cynghorydd Mark Pritchard fod pwysau ar y lefel a nodwyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau ystyried toriadau mewn meysydd a oedd wedi'u hamddiffyn yn flaenorol, er enghraifft grantiau cyfleusterau i'r anabl. Byddai toriadau o'r fath yn cael effaith uniongyrchol ar deuluoedd a byddai goblygiadau hefyd i'r GIG. Pwysleisiodd y Cynghorydd Paul Griffiths y pwysau sylfaenol ar bob cyllideb a chyfeiriodd at yr amcangyfrif y byddai 400 o athrawon yn cael eu diswyddo ledled Cymru os na chaiff y pwysau eu cyllido. Dywedodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn fod ei gyngor ef, fel y cynghorau eraill, yn gwneud ymdrechion i ymgynghori'n eang ag aelodau etholedig ar y penderfyniadau anodd hyn ond i rai, yn enwedig aelodau newydd, ei fod yn heriol ac yn effeithio ar eu cymhelliant.

23. Diolchodd y gweinidog i'w chydweithwyr gan nodi er ei bod hi unwaith eto yn gyfnod heriol ac anodd, fod y drafodaeth wedi canolbwyntio'n briodol ar yr effeithiau ar bobl a'r angen i wneud penderfyniadau gan anelu at helpu'r bobl fwyaf agored i niwed. Dywedodd y gweinidog y byddai'n sicrhau bod ei chydweithwyr yn y Cabinet yn deall y sefyllfa ym mhob rhan o wasanaethau llywodraeth leol ac y byddai'n rhannu papur CLILC â'r Gweinidogion.

24. Gofynnodd y gweinidog i'r aelodau am eu barn o ran sut y gellid cynyddu cyllid llywodraeth leol, er enghraifft, drwy ailystyried y cap ar ofal cymdeithasol. Cytunodd y Cynghorydd Anthony Hunt fod angen gwneud hyn gan fod chwyddiant uwchlaw 10%. Awgrymodd y Cynghorydd Paul Griffiths y gellid ystyried codi ffioedd yn unol â chwyddiant eleni neu chwyddiant y llynedd. Awgrymodd er bod y cyfanswm cyllid yn is, y dylid cynyddu'r cap ar ffioedd cynllunio yn unol â chwyddiant.

25. Soniodd y Cynghorydd Ian Roberts am elfen gofal plant clybiau brecwast gan holi a fyddai modd codi ffi amdani. Roedd y Cynghorydd Llinos Medi yn cytuno y dylid ailystyried capiau cynllunio a gofal cymdeithasol. Nododd yr aelodau fod angen bod yn ofalus hefyd pe byddai unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn effeithio ar grwpiau agored i niwed sydd eisoes yn wynebu costau byw uwch.

26. Diolchodd y gweinidog i aelodau'r grŵp am drafodaeth ddefnyddiol a gofynnodd iddynt ei chynnwys mewn unrhyw ohebiaeth y byddent o bosibl yn ei hanfon at ei chydweithwyr mewn perthynas â'r materion hyn.

**Eitem 6: Adroddiad Cynnydd Drafft yr Is-grŵp Dosbarthu (Papur 3)**

27. Cyflwynodd Judith Cole y papur yn amlinellu cynnydd rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu ar gyfer 2023. Nododd mai fersiwn ddrafft yw'r papur gan fod rhai penderfyniadau ar Setliad 2024-25 i'w gwneud o hyd a chadarnhaodd y byddai'n cael ei ddosbarthu ar ei ffurf derfynol ar ôl i'r Is-grŵp Dosbarthu ystyried y penderfyniadau sy'n weddill mewn perthynas â'r data ar gyfer Setliad 2024-25. Roedd hyn yn cynnwys data ar ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (eFSM), y penderfyniad ar ddadrewi rhywfaint o'r data sydd wedi'u rhewi a'r data poblogaeth. Pwysleisiodd Jon Rae yr heriau sy'n gysylltiedig â data eFSM yn ogystal â'r sgil-effeithiau ar gyfer y Grant PDG.

28. Diolchodd y grŵp i Judith am gyflwyno'r papur. Gofynnodd y Cynghorydd Mark Pritchard pryd byddai data poblogaeth SYG yn cael eu rhyddhau. Cadarnhaodd Judith y caiff yr amcangyfrifon diweddaraf o'r boblogaeth, sef amcangyfrifon canol blwyddyn 2022, eu cyhoeddi ganol fis Tachwedd.

29. Atgoffodd y gweinidog y grŵp y byddai ymgynghoriad y SYG ar ddyfodol ystadegau poblogaeth a mudo yn dod i ben ar 26 Hydref.

**Eitem 7: Diweddariad gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Papur 4)**

30. Croesawodd y gweinidog David Holloway-Young i'r grŵp i roi'r wybodaeth ddiweddaraf gan gomisiynwyr yr heddlu a throseddu. Rhoddodd David Holloway-Young ddiweddariad cryno gan nodi'r drafodaeth barhaus a oedd yn mynd rhagddi â Llywodraeth Cymru ar y targed ar gyfer y nifer o PCSOs, sef 1,100, gan nodi'r goblygiadau ymarferol. Disgwyliwyd y byddai'r niferoedd yn lleihau i 900 drwy drosiant naturiol ac y caiff hyn ei gyllido.

31. Nododd y Cynghorydd Jane Mudd ei bod yn siarad ar ran CLILC ar ddiogelwch cymunedol. Pwysleisiodd ddyletswyddau ALlau o ran diogelwch cymunedol. Nododd pe byddai'r cyllid ar gyfer PCSOs yn cael ei rewi, y byddai rhoi ystyriaeth o ddifrif i gadw'r cyllid grant er mwyn cefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol.

32. Gofynnodd y gweinidog am ddiweddariad ar yr adolygiad o fformiwla cyllido'r heddlu. Nid oedd unrhyw newid ar hyn o bryd ond bydd David yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf.

33. Diolchodd y gweinidog i David am y diweddariad cynhwysfawr ac am y gwaith roedd yr heddlu wedi'i wneud i ymdopi â'r pwysau presennol ar y gyllideb a'r pwysau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd fod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn gweithio'n agos gydag arweinwyr Plismona yng Nghymru i fonitro effaith y penderfyniad i atal y broses o recriwtio PCSOs am gyfnod, gan gynnwys yr effaith ar bob heddlu unigol yng Nghymru.

**Eitem 8: Unrhyw fater arall**

34. Cododd y gweinidog un mater a oedd yn ymwneud â risgiau ceisiadau cyflog cyfartal. Nododd er bod amgylchiadau penodol iawn yn berthnasol i Gyngor Birmingham, fod cynghorau eraill yn nodi risgiau mewn perthynas â chyflog cyfartal. Gofynnodd y gweinidog i'r aelodau a allent ystyried a oedd Arweinwyr wedi cael digon o wybodaeth am eu risg mewn perthynas â chyflog cyfartal ac a oes unrhyw gamau ar waith o ystyried y gwersi a ddysgwyd gan Gyngor Birmingham.

35. Nododd y Cynghorydd Andrew Morgan fod CLILC wrthi'n trefnu seminar gydag Arweinwyr, arweinwyr cyllid a swyddogion ac y byddai'n ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru fynychu'r seminar hwnnw. Cytunodd y gweinidog y byddai hynny'n ddefnyddiol a chadarnhaodd Judith ei bod ar gael i fynychu.

**Cam gweithredu: CLILC i adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf am y risgiau mewn perthynas â chyflog cyfartal ar draws ALlau**